**Anna George**

## Cerdyn Post Creadigol— Nepal




Annwyl Nepal,

Namaste o Gymru! A minnau'n sipian te sinsir o farchnad Kathmandu, ma' sbeisys dy dir yn rhoi'r awch i mi ddod i dy weld di eto. Mae gen i hiraeth am weld cewri tal yr Himalaya'n crafu'r awyr, a theimlo dy anadl ifanc ar fy ngwâr, yn sibrwd her.

Dy lwybrau llychlyd ddysgodd i mi werth ysbryd gwydn y Nepali a'r Sherpa. Croeso cynnes perchnogion dy dai te anwesodd fy nhu mewn ar nosweithiau oer. Dy lefydd chwech ddwedodd wrtha i "na, byth eto". Ond rhwng muriau pren dy dai te fin nos, roedd hi'n gemau cardiau dirifedi, yn dynnu coes, yn gwis neu'n jôc, yn bowlenaid cysurus o dal bhat a chwrw Everest, ac yn griw o Gymry'n prysur ffeirio straeon gyda'r trigolion.

Drwy'r ffenest byddai cadwyn Everest, Lhoste neu Ama Dablam fel un o blant chwareus y llwybrau — Sharon Sherpa yn ei thracsiwt pinc, neu'r Washi oedd yn pledio ymwelwyr efo balŵns, yn chwarae bi-bo, yn rhoi sioe, ac yn datgelu eu mawredd a'u gwerth, yn ara deg. Yna'n stumddrwg, byddai'r niwl yn dod i gipio'r copaon o'r golwg, a byddai'r sioe'n dod i ben am noson arall.

Yna deuai'r bore bach. A chyda phob bore bach deuai diwrnod mawr. Dan ganu clychau mulod a theirw yak y llwybrau, a dawns y fflagiau gweddi ar yr awel denau, deuem bob cam yn nes at y terfyn. Ac ar y terfyn, ac yng ngŵydd llygaid Everest ei hun, caswom fod.

Tan y tro nesaf Nepal,

Anna





At olygyddion **Y STAMP** yn eu byncer cyfrinachol yng nghyffiniau

LLANRHYSTUD.

Cymru.

Ewrop.

Yn y byd a'r bydysawd.

http://ystamp.cymru
@ystampus
golygyddion.ystamp@gmail.com